

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru

21 Rhagfyr 2021

Annwyl Russell

Y broses penodiadau cyhoeddus

Ysgrifennaf fel ymateb i'ch llythyr dyddiedig 22 Tachwedd 2021 a anfonwyd yn dilyn sesiwn graffu a gynhaliwyd gydag Emrys Elias, Cadeirydd Dros Dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ar 4 Tachwedd.

Rwy'n rhannu siom y Pwyllgor ynglŷn â denu unigolion o ansawdd uchel i geisio am y swyddi hynod bwysig hyn sydd wedi arwain, yn yr achos hwn, at benodiad dros dro.

Wrth i'r Gwasanaeth Iechyd barhau i wynebu'r heriau a achosir gan COVID-19, mae'n bwysicach nag erioed bod ymarferion recriwtio llwyddiannus yn cael eu cynnal. Mae camau yn cael eu cymryd fel ymateb i sylwadau'r Pwyllgor ac mae'r argymhellion i'w gweld yn yr atodiad sydd ynghlwm.

Yn gywir

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad: Ymateb i gwestiynau a gododd yn dilyn y sesiwn graffu a gynhaliwyd gyda Chadeirydd Dros Dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 4 Tachwedd 2021.

Y broses penodiadau cyhoeddus

Ym mis Mawrth 2020, cynhaliodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd wrandawiad cyn penodi gyda'r ymgeisydd yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio ar gyfer rôl Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Yn ei adroddiad dilynol, mynegodd y Pwyllgor siom bod angen ailgynnal y broses hysbysebu ar gyfer swydd mor amlwg oherwydd diffyg ymgeiswyr addas. Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ehangu'r ystod o lwyfannau neu gynnyrch y rhoddwyd hysbysiadau ynddynt mewn ymgais i gyrraedd cynulleidfa ehangach ac o bosibl ddenu ystod mwy amrywiol o ymgeiswyr.

- 1. Bu angen trefniant dros dro y tro hwn oherwydd bod y broses o sylwedd wedi methu â chanfod person addas i'w benodi'n Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Felly, byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu sut y byddwch yn sicrhau yn y dyfodol bod rolau tebyg yn denu ystod amrywiol o ymgeiswyr o ansawdd uchel, gan gynnwys pa gyfraniad a wneir gan Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru.*
- 2. Byddem hefyd yn croesawu rhagor o wybodaeth am ddull Llywodraeth Cymru o gynllunio olyniaeth ar gyfer swyddi uwch arweinwyr yn y GIG yng Nghymru.*

Ymateb

Cwestiwn 1

- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal ymarferion penodiadau cyhoeddus drwy gystadleuaeth deg ac agored yn unol â'r Cod Llywodraethiant Penodiadau Cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau er mwyn bod gweithgarwch cyhoedduswydd penodiadau cyhoeddus yn cyrraedd mwy o bobl, gan gynnwys targedu cynulleidfaoedd amrywiol ac ymgysylltu â nhw. Caiff penodiadau cyhoeddus eu hysbysebu fel mater o drefn drwy lwyfannau amrywiaeth ar-lein, a chytunir ar ddeunyddiau cyhoedduswydd gyda'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a chânt eu teilwra at ymgyrchoedd penodi penodol. Mae pob penodiad cyhoeddus yn cael ei rannu gydag amrywiaeth o sefydliadau rhanddeiliaid ac unigolion, gan gynnwys y rhai hynny a ddylanwadodd ar y broses o lunio Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru Llywodraeth Cymru. At hynny, ar gyfer rhai o'r penodiadau mwyaf arwyddocaol i rôl cadeirydd, mae rhinweddau defnyddio ymgynghorwyr Chwilio am Swyddogion Gweithredol sydd â phrofiad o ymgysylltu â maes eang ac amrywiol o ymgeiswyr yn cael eu pwysu a'u mesur o hyd, a mabwysiadwyd y dull hwn ar gyfer rhai ymarferion recriwtio dros y 12 mis diwethaf.
- Ymgysylltir ag ymgynghorwyr Chwilio am Swyddogion Gweithredol i gynorthwyo gyda'r ymgyrch ar gyfer Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, gan ddechrau'n gynnar yn y flwyddyn newydd. Bydd y briff yn gofyn iddynt ddod o hyd i ymgeiswyr addas, gan roi sylw arbennig i Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru Llywodraeth Cymru.

Gwerthusir pa mor effeithiol y bydd y dull gweithredu hwn o safbwynt ansawdd a nifer yr ymgeiswyr a fydd yn gwneud cais am y rôl wedi hynny er mwyn helpu i benderfynu a ddylid hefyd dilyn y dull hwn wrth recriwtio Cadeiryddion i gyrrff y GIG yng Nghymru yn y dyfodol.

- Er mwyn sicrhau ymhellach fod safonau'r Cod Llywodraethiant yn cael eu cynnal, ddechrau 2021, cafodd carfan o Uwch-aelodau Panel (Annibynnol) eu recriwtio gan Lywodraeth Cymru i ymuno â phaneli recriwtio'r penodiadau cyhoeddus mwyaf arwyddocaol. Daw aelodau o amrywiaeth o gefndiroedd, gan gynnwys grwpiau gwarchoddedig – mae'r sgiliau a'r safbwyntiau a rannwyd ganddynt wedi bod yn amhrisiadwy ar gyfer amryw o ymgyrchoedd recriwtio eleni.
- Ddechrau 2022, yn sgil ymrwymo i'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, bydd dwy raglen ddatblygu yn dechrau a fydd wedi'u targedu i gychwyn at bobl anabl a phobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Bydd hyn yn cynnwys Rhaglen Bron Yn Barod i Arwain a Rhaglen Arweinwyr y Dyfodol. Nod y rhaglenni yw arddangos cyfleoedd penodiadau cyhoeddus ynghyd â datblygu a chefnogi unigolion i wneud cais am benodiadau cyhoeddus.

Cwestiwn 2

Rwy'n cydnabod bod angen gwneud mwy mewn perthynas â chynllunio ar gyfer olyniaeth swyddi uwch-arweinwyr ac rwyf wedi cytuno i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen, dan gadeiryddiaeth Mark Polin, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae cylch gwaith y Grŵp yn cynnwys y trefniadau ar gyfer penodiadau cyhoeddus i Fyrddau, datblygu penodeion cyhoeddus a chynllunio ar gyfer olyniaeth. Mae gan y Grŵp gynrychiolaeth o blith Aelodau Annibynnol GIG Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru a bydd yn cynnal ei gyfarfod cyntaf ym mis Ionawr 2022. Bydd y Grŵp yn gweithredu am gyfnod o amser cyfyngedig a bydd argymhellion yn cael eu gwneud o fewn 6 mis i'w sefydlu.

Penodiadau dros dro

- *Er nad oes gan y Pwyllgor rôl ffurfiol mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus dros dro, byddem, serch hynny, yn croesawu rhagor o wybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud penodiadau o'r fath, gan gynnwys sut y gwneir penderfyniadau ar fanyleb a hyd y rôl, a pha ffactorau a gaiff eu hystyried wrth ganfod y rhai a benodir dros dro.*

Ymateb

- Yn y rhan fwyaf o achosion, fel opsiwn pan fetho pob dim arall y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud 'penodiadau cyhoeddus dros dro' heb gystadleuaeth. Gwneir y penodiadau hyn drwy eithriad, o dan adran 3.3 o'r Cod Llywodraethiant Penodiadau Cyhoeddus a rhaid i'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus a Gweinidogion Cymru gytuno arnynt. Gwneir y penodiadau gan amlaf pan fydd dod o hyd i ymgeisydd addas drwy ymarfer recriwtio agored wedi bod yn her, neu pan fo angen

gwybodaeth ac arbenigedd penodol. Bydd unrhyw ystyriaeth o'r ymgeisydd mwyaf addas yn amrywio er mwyn adlewyrchu natur y penodiad a'r sgiliau a'r arbenigedd a geisir. Gwneir penodiadau heb gystadleuaeth am gyfnodau o 18 mis ar y mwyaf, gydag ymrwymiad i gynnal ymarfer recriwtio llawn ac agored wedi hynny.

- Wrth geisio penodi dros dro, mae manyleb y swydd yn gyson â phe bai'n benodiad parhaol. Ar gyfer y penodiad hwn yn benodol, cytunwyd ar fanyleb y person a phroffil y swydd cyn i'r swydd gael ei hysbysebu.
- Wrth nodi darpar benodai, bydd y Gweinidog yn ystyried cyngor gan swyddogion ar y sgiliau a'r profiad sy'n angenrheidiol i ymgymryd â'r swydd, yn ogystal ag argaeledd y darpar benodai.
- Cyn cytuno ar hyd y penodiad dros dro, mae angen ystyried amrediad o ffactorau megis: bod angen sicrhau arweinyddiaeth sefydlog; argaeledd y penodai dros dro; a'r amser y bydd ei angen i redeg a chynllunio ymgyrch lwyddiannus. Fel y nodwyd uchod, bydd penodiadau heb gystadleuaeth yn cael eu gwneud am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.